# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

**COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 9fed EBRILL 2024**
**AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.**

1. **PRESENNOL** – Ceri Owen (cad), Dylan Herbert, Barry Bracegirdle (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Christine Hughes (Llanllyfni), Dafydd Thomas (Nebo), Siân Dafydd, Gareth Jones, Nigel Williams (Talysarn), Cyng. Peter Thomas.

**YMDDIHEURIADAU** – derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Justin Davies, Judith Humphreys, Erfyl Williams (Penygroes), Harry Owen (Talysarn)

2. **DATGAN BUDDIANT** - nid oedd gan neb fuddiant mewn unrhyw fater y trafodir.

3. **CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 12fed MAWRTH** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD** - hysbyseb am waith gosod peipen ddŵr ym Mynwent Macpela wedi ei roi yn Lleu ac ar dudalen facebook a'r wefan gyda dyddiad cau o 10fed Mai. Materion Cyngor Gwynedd dal yn agored ar eu gwefan felly angen dilyn fyny arnynt. Mater biniau yn cael eu gadael allan o flaen cartrefi ar y Stryd Fawr wedi ei sortio bellach - diolch i Grŵp Cynefin am wneud hyn. Sedd wag Nantlle - roedd enw Gerallt Hughes wedi ei roi ymlaen felly'r clerc i gysylltu gydag o i'w wahodd i gyfarfod mis Mai. Argyfwng Costau Byw - nodyn wedi ei roi ar y dudalen facebook am hyn ond dim ymateb - ymestyn y nodyn am fis arall i weld os daw yna unrhyw beth. Parcio Felin Gerrig, Llanllyfni - Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn dweud nad oes dim allant wneud am y mater gan nad oes unrhyw reolau yn cael eu torri. Gofynnwyd i Cyng. Peter Thomas pe bai yn fodlon mynd ar mater ymhellach a cheisio cael cyfarfod safle yno.

5. **ADRODDIADAU GAN Y CYNGHORWYR SIR** - diolchwyd i Cyng. Peter Thomas am ei adroddiadau misol ac am ei waith i'r ardal yn gyson. Diolchwyd iddo am gael bin ysbwriel maint mwy ar gyfer gwaelod Lôn Ddŵr. Mae dal i geisio cael synnwyr gyda'r twll sydd yn suddo ar Lôn Ddŵr ac wedi gofyn i gael pwll arbrofol yno cyn gynted ag y bo modd.

6. **CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU - 20fed Mawrth, Is-bwyllgor Cyllid -** adroddwyd beth a drafodwyd yn y cyfarfod hwn a gofynnwyd i bawb edrych dros y gyllideb ddrafft 2024/25 cyn y cyfarfod llawn nesaf.

7. **TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID** - diwedd y flwyddyn ariannol wedi cyrraedd ac mi rydym yn cario arian drosodd i'r flwyddyn newydd. Adroddwyd y byddwn yn cael archwiliad llawn am y flwyddyn 2023/24. Angen cysylltu gyda'r archwilydd mewnol er mwyn cael gwybod beth y mae eisiau er mwyn cario allan ei archwiliad. Pwysig cofio nodi nad yw'r preasept wedi ei godi am y bedwaredd flwyddyn. **Yswiriant** - cynigwyd ac eiliwyd i fynd am y pris tair blynedd a drafodwyd yn y cyfarfod cynt. Bydd angen cael copi a phrawf gan CPD Talysarn Celts a Chyngor Gwynedd bod prydles yr ystafelloedd newid wedi ei drosglwyddo cyn tynnu'r ystafelloedd oddi ar yr yswiriant.

8. **LLWYBRAU A MYNWENTYDD - Llwybr Tramwy rhif 6 - Allt Felen Clogwyn Melyn** - adroddwyd nad oes unrhyw broblem gyda defnyddio'r llwybr hwn er ei fod yn mynd drwy ardd yr eiddo. **Sbwriel mynwentydd** - hyn dal yn broblem a sbwriel yn cael ei adael er gwaethaf yr arwyddion. Monitro'r sefyllfa unwaith yn rhagor ac adrodd yn nôl yn y cyfarfod nesaf cyn symud ymlaen gyda'r broblem.

9. **MATERION PENTREFI - Talysarn -** tyllau yn y ffyrdd yn gwaethygu ac angen mynd ar ôl hyn unwaith eto. Hefyd rhai newydd wedi ymddangos ac angen sylw. Y clerc wedi derbyn lluniau ar gyfer eu gyrru i Gyngor Gwynedd am hyn. Mwd ar y ffordd o'r Gloddfa Glai - hyn yn ddealladwy oherwydd y gwaith cario a'r tywydd wedi bod yn
Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

ddrwg - adroddwyd y bydd y gwaith cario yn dod i ben yr wythnos nesaf. Cyflwr cyffredinol y twmpathau arafu traffig yn y pentref angen sylw. Problem gyda defaid ag wyn yn crwydro'r pentref - Cyng. Peter Thomas wedi delio gyda'r mater hwn. Nodwyd fod y gwaith ar yr ardd gymunedol wedi dechrau. **Penygroes** - pwll dŵr rhwng cylchdro Inigo Jones a Garthdorwen ac angen cael sylw gan ei fod yn beryglus. Wedi cysylltu gyda Cyng. Craig ab Iago a Chyngor Gwynedd am hyn. Coeden wedi dechrau disgyn ar y boncen ger safle Wynnstay ac angen ei chodi yn ôl. Cerbiau ger 28 a 80 Trem Yr Wyddfa dal heb gael sylw. **Llanllyfni** - dim mater yn codi. **Nebo -** Lôn Pant Y Gog yn llawer iawn gwaeth ar ôl y glaw trwm diweddar. Tyllau wedi ymddangos ger Capel Nasareth angen sylw. Y clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd am y materion a godwyd yma.

10. **<u>TIR CWTÎN</u> -** nodwyd bod enw Pwyllgor Cwtîn bellach wedi newid ei enw i "Cwtîn CBC". Trafodwyd e-byst a oedd wedi eu derbyn ynglŷn â Thir Cwtîn a'r costau cyfreithiol. Yn dilyn trafodaeth ar sut i symud ymlaen gyda hyn cynigwyd os nad yw'r arian yn cael ei godi gan Cwtin CBC o fewn amser penodol yna bydd y tir yn cael ei roi ar werth. Cynnig arall oedd cael cyngor cyfreithiol ar sut i symud ymlaen. Cynigwyd y dylid gyrru'r e-byst i gyd at Un Llais Cymru er mwyn cael cyngor. Yn dilyn trafod y cynigion hyn penderfynwyd yn unfrydol i ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan Cwtîn CBC ond hefyd dweud na fyddwn yn ymateb i unrhyw e-bost/llythyr/ymholiad pellach a dderbynnir a bydd popeth yn cael ei yrru ymlaen i gyfreithwyr y Cyngor Cymuned sydd yn delio gyda'r mater. Hefyd nodi y bydd y cyngor yn pennu dyddiad cwblhau ar gyfer y gwaith hwn ac os na fydd hyn yn digwydd yna bydd y tir yn cael ei roi ymlaen ar gyfer prosiect arall o fewn y gymuned.

11. **<u>ILDIO PRYDLES GLODDFA GLAI TALYSARN</u>** – adroddwyd bod y broses hon yn mynd yn ei blaen ac yn disgwyl am y dogfennau gorffenedig.

12. **<u>CYNLLUN GWAHARDDAU PARCIO ARFAETHEDIG PANT DU PENYGROES</u>** - roedd ebost wedi ei dderbyn ynglŷn â hyn ac roedd pawb wedi derbyn copi er mwyn cael edrych drosto cyn y cyfarfod. Trafodwyd a chynigwyd ac eiliwyd i gefnogi y cais i roi gwaharddau ar y safle. Y clerc i ymateb yn nôl i Gyngor Gwynedd i ddweud hyn.

13. **<u>CELF ARFAETHEDIG CANOLFAN PLAS SILYN PENYGROES</u>** - croesawyd Tom Simone i'r cyfarfod i drafod y cynllun hwn ac i esbonio mwy. Esboniodd eu bod yn awyddus i osod cerflun o fath o flaen Plas Silyn ond nid oedd y ganolfan yn awyddus i gymryd cyfrifoldeb dros y cerflun felly eisiau gofyn a fuasai'r Cyngor Cymuned yn fodlon gwneud hynny. Ar hyn o bryd eisiau cytundeb mewn egwyddor. Soniwyd eu bod am ei wneud fel bod modd ei ddringo ond nid oedd y cynghorwyr yn gweld hyn yn syniad da o gwbl oherwydd iechyd a diogelwch a beth fuasai yn golygu i gostau yswiriant y cyngor drwy wneud hyn. Gofynwyd i Tom os oedd modd cael y cerflun yn Nhalysarn, ond yn anffodus dim ond ar gyfer trefi (felly Penygroes) y mae'r grantiau hyn ar gael ar hyn o bryd. Cynigwyd ac eiliwyd i gytuno i hyn ond yn ddibynnol ar y telerau. Nodwyd y bydd y Cyngor Cymuned gyfan yn awyddus i weld y cynllun cyn ei fabwysiadu - mae yn hanfodol bwysig i gael mewnbwn os am ei gymryd drosodd. Diolchwyd i Tom am ddod i esbonio.

14. **<u>CYNLLUNIAU CANOL TREFI LLECHI</u>** - roedd Cyng. Peter Thomas wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd am y mater yma yn gwneud ymholiadau o beth fuasai pentrefi Dyffryn Nantlle yn ei elwa o hyn ond yn anffodus mae natur y cyllid sydd ar gael yn golygu mai dim ond cymunedau sydd wedi eu diffinio yn drefi sydd yn gymwys i dderbyn buddsoddiad, ac yn ein hachos ni mae hyn yn golygu Penygroes.

15. **<u>CEISIADAU CYNLLUNIO</u>** – nid oedd ceisiadau wedi eu derbyn y mis hwn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

16. **GOHEBIAETH** - roedd pawb wedi derbyn r ohebiaeth ac nid oedd dim yn codi ohonynt

- Llais Cymru – Atal marwolaethau yn y dyfodol – Rheithfarnau Adran 28 y Crwner
- UnLlais - Ymgynghoriad newydd - Senedd Cymru - Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol
- UnLlais – Grŵp ffocws ar gyfer cynrychiolwyr ieuenctid cynghorau tref a chymuned
- Cyngor Gwynedd – gwahoddiad – Tai ar daith Cyngor Gwynedd

17. **MATERION ARIANNOL** - trafodwyd a chytunwyd i dalu'r anfonebau isod i gyd

- Nia Jones – Ffôn a rhyngrwyd = **£25.00**
- Dŵr Cymru – Dŵr mynwentydd = **£97.17**
- Canolfan Talysarn – defnydd ar gyfer cyfarfodydd = **£120.00**

18. **UNRHYW FATER ARALL** – nid oedd unrhyw fater arall yn codi i'w drafod.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal nos Fawrth, 14eg Mai 2024 am 7.00 o'r gloch yn y Ganolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _______________________________ Dyddiad - ___________